

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol (lle
rhoddwyd rhybudd)**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr,
Clinig Castle Square**

09 Rhagfyr 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	10
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	12
6.	Y Camau Nesaf.....	13
	Atodiad A.....	14

1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Castle Square yn 35 Castle Square, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2NN, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 9 Rhagfyr 2014.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y Claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisiau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisiau'n bodloni'r safonau a geir yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle

¹Daeth *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.

www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Gwybodaeth ar daflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, darperir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r defnydd o safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Clinig Castle Square yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caernarfon yng Ngwynedd. Mae'r practis wedi bod yn cael ei redeg gan ŵr a gwraig, sef Brian a Kath Humphreys, o Glinig Castle Square Cyfyngedig ers 1984 ac mae'n ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd (Mr a Mrs Humphreys), un hylenydd, un therapydd deintyddol, dwy nyrs ddeintyddol, dwy nyrs ddeintyddol o dan hyfforddiant, un derbynydd a rheolwr y practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Archwiliadau iechyd deintyddol a thriniaethau
- Gwasanaethau glanweithydd yn cynnwys cyngor periodontal, tynnu cen a sgleinio
- Pelydrau-x
- Llenwadau a thriniaeth sianel y gwreiddyn
- Gwaith ar y corun a'r bont
- Cyngor ataliol, yn cynnwys cyngor ar ddeiet a hylendid y geg
- * Deintyddiaeth gosmetig
- * Triniaethau esthetig anlwfeddygol i'r wyneb

* Canolbwyntiodd arolygiad AGIC ar wasanaethau deintyddol cyffredinol y clinig yn unig.

4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Clinig Castle Square yn bodloni safonau gofal y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Roedd yr holl gleifion a ymatebodd i holiaduron AGIC yn fodlon ar y gwasanaeth ac yn dweud eu bod yn teimlo bod croeso iddynt gan y staff. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis wella sut yr arddangosir gwybodaeth i gleifion ac ystyried amrywiaeth o ddulliau a moddau er mwyn derbyn adborth gan gleifion. Gwnaeth pedwar claf sylwadau ychwanegol yn yr holiadur ac maent wedi cydsynio i'w sylwadau gael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn, sef:

"Rydw i'n teimlo'n ymlaciedig iawn yn dod yma".

"Rydw i'n teimlo'n ffodus iawn i gael practis deintyddol mor dda".

"Mae'r staff yn barod eu cymorth ac effeithlon". "Deintyddfa olau a glân".

"Dim problemau â'r gwasanaeth na'r driniaeth".

Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod cofnodion clinigol wedi cael eu cwblhau i safon dda. Roedd prosesau boddhaol ar gyfer diheintio offer ac roedd y systemau ar gyfer cynnal offer radiograffeg (pelydr-x) yn dda. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ofyn am ragor o gyngor ynglŷn â storio meddyginiaeth frys.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio yn y practis ers sawl blwyddyn, yn cynnwys y ddau ddeintydd a ddechreuodd reoli'r busnes yn 1984. Roedd pob claf yn fodlon ar y gwasanaeth ond gwnaethom argymhell sawl gwelliant mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth gyffredinol y gwasanaeth.

Mae'r adeilad yn ymestyn dros bum llawr; mae tri ohonynt ar gyfer cleifion, ac yn gyffredinol nid oedd yn ffafriol i ddarparu gwasanaethau i gleifion ag anabledau neu anghenion arbennig. Fodd bynnag, mae'r deintyddion sydd yn gweithio i'r practis ar hyn o bryd wedi bod yna ers 30 o flynyddoedd a chawsom ein hysbysu ganddynt bod yr adeilad rhestredig gradd II hwn wedi cael ei ddefnyddio fel practis deintyddol ers blynyddoedd cyn hynny.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau a'u bod yn teimlo bod croeso iddynt gan y staff. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis wella sut yr arddangosir gwybodaeth i gleifion ac ystyried amrywiaeth o ddulliau a moddau ar gyfer derbyn adborth gan gleifion.

Cyn yr arolygiad, cynhyrchodd AGIC holiaduron i'r practis eu dosbarthu i gleifion; rhoddwyd 20 o holiaduron wedi'u cwblhau inni ar ddiwrnod yr arolygiad, sydd yn cadarnhau bod cleifion yn fodlon ar y staff a'r gwasanaeth a dderbyniwyd. Nid oedd unrhyw glaf wedi profi oediad cyn cael ei weld ac yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod cleifion yn cael eu galw yn brydlon ar gyfer eu hapwyntiad.

Nid oedd y practis yn gallu darparu canran y gymhareb rhwng cleifion y GIG a chleifion preifat ond cadarnhaodd fod y rhan fwyaf o'i waith yn cael ei ddarparu i gleifion preifat. Ar hyn o bryd, mae gan y practis restr aros am wasanaethau deintyddol y GIG. Roedd y rhan fwyaf o wybodaeth y practis, yn cynnwys ei daflen a'i wefan, wedi'i hanelu at gleifion preifat a gwelsom fod argaeledd y wybodaeth o fewn y practis, yn enwedig i gleifion y GIG, yn gyfyngedig neu'n anodd ei gweld yn gyffredinol.

Nid oedd hysbysfwrdd yn y man aros ac roedd yr ychydig o bosteri a arddangosir yn perthyn i wasanaethau cosmetig a chynigion tymhorol. Roedd hysbysiad a oedd yn cynnwys ffioedd y GIG wedi'i arddangos ar ochr y cownter yn y dderbynfa, fodd bynnag, oherwydd bod cadair o'i flaen, ni allai cleifion weld y wybodaeth. Roedd taflenni'r GIG 'Gweithio i Wella'² wedi'u rhoi drws nesaf i daflen wybodaeth y practis. Roedd y rhain wedi eu gosod yn wastad ar y ddesg yn y dderbynfa ac, fel yr hysbysfwrdd uchod, roeddent yn anodd eu gweld.

Dywedodd 8 claf allan o 20 a ymatebodd i holiaduron AGIC nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Roedd hysbysiad ynghylch cwynion wedi'i arddangos y tu ôl i'r ddesg yn y dderbynfa, eto, byddai'n anodd iawn i'r cleifion ei weld. Gwnaethom arolygu'r ffeil cwynion a gweld bod systemau da ar waith a oedd yn cyd-fynd â threfniadau'r GIG uchod. Gwnaethom edrych ar un gŵyn ac roedd y ddogfennaeth yn dangos bod pryderon y claf wedi cael eu trin o ddifrif.

² 'Gweithio i Wella' yw trefniadau'r GIG ar gyfer ymdrin â phryderon o fewn gwasanaethau'r GIG ac ymateb iddynt.

Roeddem yn gallu gweld iddo gael ei archwilio'n briodol a hysbyswyd y claf o'r datblygiad a'r canlyniad yn ysgrifenedig.

Roedd yr holl wybodaeth a welsom o fewn y practis ac ar wefan y practis wedi'i hysgrifennu yn Saesneg yn unig. Ar wahân i'r posteri'n hysbysebu gwasanaethau cosmetig a chynigion tymhorol, roedd maint ffont bach i'r ysgrifen ar y taflenni gwybodaeth a'r hysbysiadau ac, fel y nodwyd uchod, roeddent yn anodd eu gweld.

Argymhelliad

Dylai'r practis adolygu sut yr arddangosir gwybodaeth a dylid rhoi mwy o sylw i ddewis iaith y cleifion, anghenion cyfathrebu a chleifion sydd yn derbyn gwasanaethau o dan y GIG.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a'r nyrs ddeintyddol ynglŷn â'r dulliau o dderbyn adborth gan gleifion. Gwnaethant esbonio bod y rhan fwyaf o gleifion wedi'u cofrestru â'r practis ers amser maith ac felly maent yn trafod pryderon â'r staff yn anffurfiol. Fodd bynnag, wrth baratoi ar gyfer arolygiad AGIC yn ystod mis Tachwedd 2014 cynhyrchodd y practis ei holiaduron ei hun i'w gleifion. Gwnaethom arolygu'r 20 o ymatebion a dderbyniwyd a oedd eto'n dangos lefel uchel o fodlonrwydd ar y gwasanaeth.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod dulliau eraill yn cael eu defnyddio i dderbyn adborth gan gleifion, er gwelsom boster ynghylch cyflwyno sylwadau, cwynion ac awgrymiadau yn un o ffeiliau polisi'r practis. Ni welsom unrhyw beth i ddangos bod barn y cleifion yn cael ei gweithredu. Nid oedd adroddiad cryno na chynllun gweithredu wedi cael eu cwblhau ar ôl yr arolwg cleifion uchod, er enghraifft. Roedd arolwg 'claf newydd' wedi cael ei ddatblygu, ond ar adeg ein harolygiad, dim ond un o'r rhain oedd wedi'i gwblhau; roedd y claf yn fodlon ar y gwasanaethau.

Argymhellion

Dylai'r practis ystyried ystod o ddulliau a moddau ar gyfer derbyn adborth gan gleifion. Dylid ystyried barn cleifion wrth wneud newidiadau i ddatblygu a/neu wella'r gwasanaethau.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod cofnodion clinigol wedi cael eu cwblhau i safon dda. Roedd gweithdrefnau boddhaol ar gyfer diheintio offer ac roedd y systemau ar gyfer cynnal offer radiograffeg (pelydr-x) yn dda. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ofyn am ragor o gyngor ynglŷn â chadw meddyginiaeth frys.

Gwnaethom arolygu 5 cofnod i bob deintydd ac ar y cyfan, canfuwyd gennym fod y nodiadau clinigol yn dda ac yn darparu gwybodaeth ddigonol ynglŷn ag apwyntiadau, triniaethau a chaniatâd y cleifion. Nid oedd hanes meddygol cychwynnol y cleifion newydd yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd ac nid oedd y nodiadau hyn yn cael eu sganio i'w rhoi ar y system gyfrifiadurol. Nid oedd hanes meddygol dilynol y cleifion bob amser yn cael ei gofnodi na'i ddiweddarau ar y system gyfrifiadurol.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i ddeintyddion ddangos eu bod wedi darllen hanes meddygol cychwynnol y cleifion; dylid cadw copi o'r rhain neu eu sganio i'w rhoi ar y cyfrifiadur.

Dylai hanes meddygol dilynol y cleifion gael ei gofnodi a'i ddiweddarau'n gyson.

Gwelsom fod systemau boddhaol ar waith ar gyfer monitro a chynnal offer radiograffeg (pelydr-x). Roedd y radiograffau yn cael eu prosesu'n ddigidol, a chanfuwyd gennym fod eu hansawdd yn rhagorol. Roedd y deintydd yn graddio radiograffau o 1 i 3 ac yn cynnal llyfr log o'r canlyniadau hyn er mwyn monitro'r ansawdd, a oedd yn enghraifft o arfer da.

Roedd gan y practis yr offer dadebru brys priodol. Wrth arolygu'r cofnodion hyfforddiant canfuwyd gennym fod yr hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) diweddaraf i ymarferwyr oedd wedi'i gynnal ym mis Ebrill 2013. Roedd yr hyfforddiant nesaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2015. Nid oedd dwy nyrs ddeintyddol o dan hyfforddiant wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd yn y practis. Mae canllawiau'r Cyngor Dadebru (DU) yn datgan bod rhaid i bob ymarferydd deintyddol dderbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd a dylai hyn gael ei ddiweddarau'n flynyddol o leiaf. Oherwydd y gallai hyn greu perygl uniongyrchol posibl i ddiogelwch y cleifion, cyflwynodd AGIC lythyr 'gweithredu ar unwaith' i'r practis. Mae'r practis bellach wedi mynd i'r afael yn foddhaol â'r pryder hwn oherwydd ad-drefnwyd yr hyfforddiant i'r holl staff ar gyfer y 5ed o fis Ionawr 2015.

Roedd stoc o feddyginiaeth frys wedi'i gadw mewn cynhwysydd yn oergell y staff, a oedd yn cael ei defnyddio i gadw bwyd a diodydd cyffredinol hefyd. Canfuwyd gennym fod yr holl feddyginiaeth o fewn y dyddiad dod i ben. Nid oedd angen i'r rhan fwyaf o'r feddyginiaeth gael ei chadw yn yr oergell, yn ôl canllawiau storio'r gwneuthurwr.

Argymhelliad

Dylid sicrhau bod meddyginiaeth frys yn cael ei chadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Dylid gofyn am gyngor ynglŷn â pholisïau lleol ar gyfer cadw meddyginiaeth a'r arfer gorau mewn practisiau deintyddol.

Dangoswyd proses ddiheintio'r practis i ni gan dair nyrs ddeintyddol mewn tair ystafell driniaeth wahanol a chanfuwyd gennym fod system glir ar waith i wahanu a phrosesu offer brwnt a glân. Roedd y staff a oedd wedi cael eu hyfforddi yn ymgymryd â glanhau'r offer â llaw ac roedd pob ystafell yn cynnwys awtoglaf er mwyn diheintio'r offer.

Ar y cyfan, gwelsom fod y cyfleusterau clinigol a'r ystafelloedd triniaeth yn y practis yn dda. Gwnaethom drafod amrywiol fathau o declynnau ad-weinio nodwyddau a allai fod yn fwy datblygedig na'r rhain sy'n cael eu defnyddio yn y practis ar hyn o bryd; cytunodd rheolwr y practis i ystyried hyn fel rhan o'u cynllun gwella yn y dyfodol.

Roedd y practis wedi derbyn cynlluniau i greu ystafell ddiheintio bwrpasol sawl blwyddyn yn ôl ag amserlen i gwblhau'r gwaith erbyn 2013. Nid oedd y gwaith hwn wedi dechrau eto, ac nid oedd rheolwr y practis na'r nyrs ddeintyddol yn gwybod pryd y byddai'r gwaith hwn yn debygol o fynd rhagddo. Er byddai ystafell ddiheintio bwrpasol yn arfer delfrydol, gwnaethom awgrymu fod y practis yn adolygu ei gynllun gwella i sicrhau bod dyddiadau realistig a chyraeddadwy yn cael eu gosod yn erbyn ei gamau gweithredu.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio yn y practis ers sawl blwyddyn, yn cynnwys y ddau ddeintydd a ddechreuodd reoli'r busnes yn 1984. Roedd yr holl gleifion yn fodlon ar y gwasanaeth ond gwnaethom argymhell sawl gwelliant i reolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y gwasanaeth.

Nid oedd cofnodion hyfforddiant i rai o'r staff clinigol wedi cael eu cadw yn y practis. Gwelsom fod cofnodion hyfforddiant i staff eraill yn cael eu monitro â llaw, a oedd yn achosi anhawster wrth gadw golwg ar bwy a oedd wedi derbyn hyfforddiant, y dyddiadau a gafwyd yr hyfforddiant ac erbyn pryd mae angen ei adnewyddu'r hyfforddiant.

Argymhelliad

Mae'n rhaid gwella'r system o fonitro hyfforddiant i'r holl staff, yn cynnwys tystiolaeth o'r hyfforddiant a dderbyniwyd ac a gynlluniwyd ac erbyn pryd mae angen ei adnewyddu.

Ni allem arolygu arfarniadau blynyddol y staff oherwydd eu bod yn cael eu cadw yn rhywle arall gan un o'r deintyddion. Nid oedd unrhyw aelod o'r staff y gwnaethom drafod ag ef wedi derbyn arfarniad blynyddol yn ystod 2014.

Argymhelliad

Mae'n rhaid i'r staff dderbyn arfarniad personol blynyddol a chael cynllun datblygiad personol sy'n eu galluogi i ddatblygu eu rôl. Dylid cadw copïau mewn lle diogel o fewn y practis.

Gwnaethom gwestiynu'r arfer o recriwtio staff oherwydd nad oeddent wedi derbyn gwiriadau Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i'r holl staff sy'n gweithio yn y practis. Dywedodd rheolwr y practis wrthym iddi ofyn am gyngor ynghylch hyn gan y bwrdd iechyd lleol, ond nad yw wedi derbyn ymateb clir hyd yn hyn o ran a fyddai angen iddynt gael gwiriadau DBS i'r holl staff. Mae'r canllawiau Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed mewn Practis Deintyddol Cyffredinol (2011) Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datgan y dylai'r holl staff sy'n cael mynediad at blant ac oedolion sy'n agored i niwed, yn cynnwys staff â mynediad at gofnodion y cleifion, feddu ar wiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol (nodwch fod gwiriadau Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi disodli gwiriadau'r Swyddfa Cofnodi Troseddol erbyn hyn).

Argymhelliad

Dylai proses recriwtio staff y practis gynnwys camau priodol i sicrhau bod staff sy'n gweithio gydag oedolion a phlant yn addas i wneud hyn.

Cynhaliwyd archwiliad rheoli heintiau a diheintio ym mis Tachwedd 2014. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ddogfennol i ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'r camau gweithredu a nodwyd, na bod archwiliad wedi cael ei gynnal yn flynyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Argymhelliad

Mae'n rhaid cynnal archwiliadau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05 a sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol o'r camau gweithredu dilynol ar gael.

Gwnaethom arolygu cofnodion cyfarfodydd y staff a gweld bod y rhain wedi cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod 2013 a 2014 ac roedd manylion digonol yn tystio i'r hyn a oedd wedi cael ei drafod a'i gytuno.

Nid oedd gan reolwr y practis swyddfa ar wahân ac, oherwydd ei bod yn brysur ar y ddesg yn y dderbynfa, roedd hyn yn effeithio ar ei gallu i ymgymryd â thasgau rheoli a datblygu a gwella'r gwasanaeth yn effeithiol. Gwnaethom gwestiynu a yw'r lefelau staffio gweinyddol yn y practis prysur hwn yn ddigonol ac, o ystyried canfyddiadau ac argymhellion AGIC a wnaed yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom argymhell bod hyn yn cael ei adolygu.

Argymhelliad

Adolygu lefelau staffio gweinyddol o ran rôl rheolwr y practis, i ganiatáu digon o amser i reoli a gwella'r gwasanaeth yn effeithiol.

Ansawdd yr Amgylchedd

Mae'r adeilad yn ymestyn dros bum llawr; mae tri ohonynt ar gyfer cleifion, ac yn gyffredinol nid oedd yn ffafriol i ddarparu gwasanaethau i gleifion ag anabledau neu anghenion arbennig. Fodd bynnag, mae'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wedi bod yna ers 30 o flynyddoedd a chawsom ein hysbysu bod yr adeilad rhestredig gradd II hwn wedi cael ei ddefnyddio fel practis deintyddol am flynyddoedd cyn hynny.

Mae'r dderbynfa a'r ystafell aros gyfunol ar y llawr daear; roedd un ystafell driniaeth a thŷ bach i'r cleifion a'r staff yn yr islawr ac mae dwy ystafell driniaeth arall ar y llawr cyntaf. Roedd yr ystafell aros yn lân ac olau.

Nid oedd y practis bob amser yn defnyddio'r manau storio yn dda. Er enghraifft, gwnaethom sylwi bod deunyddiau a chynhyrchion glanhau yn cael eu cadw mewn amrywiol lefydd o fewn y practis a gwelsom stoc o fenig diogelwch ar silff ffenestr.

Fel y soniwyd yn flaenorol, nid oedd gan reolwr y practis swyddfa bwrpasol, ac roedd gwybodaeth a gohebiaeth yn cael eu prosesu yn y dderbynfa a'r ystafell aros gyfunol; nid oedd yn ddelfrydol i sicrhau cyfrinachedd.

Gwelsom un claf yn dod lawr y grisiau yn araf a phetrus. Roedd rhaid i glaf arall eistedd am amser hir ar ôl ei driniaeth, ar ôl teimlo'n sâl. Gwnaethom drafod yr amgylchedd ag un o'r deintyddion ond esboniodd nad ydynt yn gallu ymgymryd â gwelliannau sylweddol gan mai adeilad rhestredig gradd II yw hwn. Gall cleifion sy'n cael trafferth wrth fynd i fyny ac i lawr y grisiau gael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth deintyddol cymunedol neu bractis deintyddol lleol arall, lle mae ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu bod y practis yn gwneud ymholiadau pellach mewn perthynas â'r gwelliannau a chaniateid o dan y cyfyngiadau i adeiladau rhestredig gradd II ac a fyddai o les i'r bobl sy'n cael trafferth symud o gwmpas.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r pedwar maes a arolygwyd. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Castle Square yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu deintyddol.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Clinig Castle Square

Dyddiad yr Arolygiad: 09 Rhagfyr 2014

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Profiad y Claf			
7	<p>Dylai'r practis adolygu sut yr arddangosir gwybodaeth a dylid rhoi mwy o sylw i ddewis iaith y cleifion, anghenion cyfathrebu a chleifion sy'n derbyn gwasanaethau o dan y GIG.</p> <p>Dylai'r practis ystyried ystod o ddulliau a moddau ar gyfer derbyn adborth gan gleifion. Dylid ystyried barn y cleifion wrth wneud newidiadau i ddatblygu a/neu wella'r gwasanaethau.</p>			
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
8	<p>Mae'n rhaid i deintyddion ddangos eu bod wedi darllen hanes meddygol cychwynnol y cleifion; dylid cadw copi o'r rhain neu eu scanio i'w rhoi ar y cyfrifiadur.</p> <p>Dylai hanes meddygol dilynol y cleifion gael ei gofnodi a'i ddiweddarau'n gyson.</p>			
9	<p>Dylid sicrhau bod meddyginiaeth frys yn cael ei chadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Dylid gofyn am gyngor ynglŷn â pholisiau lleol ar gyfer storio meddyginiaeth a'r arfer gorau mewn practisiau deintyddol.</p>			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
10	<p>Mae'n rhaid gwella'r system o fonitro hyfforddiant i'r holl staff, yn cynnwys tystiolaeth o'r hyfforddiant a dderbyniwyd ac a gynlluniwyd ac erbyn pryd mae angen ei adnewyddu.</p>			
10	<p>Mae'n rhaid datblygiad personol i'w galluogi i ddatblygu eu rôl. Dylid cadw copïau mewn</p>			

Rhif y Dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	Ile diogel o fewn y practis. i'r staff dderbyn arfarniad personol blynyddol a chael cynllun			
11	Dylai proses recriwtio staff y practis gynnwys camau priodol i sicrhau bod staff sy'n gweithio gydag oedolion a phlant yn addas i wneud hyn.			
11	Mae'n rhaid cynnal archwiliadau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05 a sicrhau bod tystiolaeth ddogfennol o'r camau gweithredu dilynol ar gael.			
11	Adolygu lefelau staffio o ran rôl rheolwr y practis, i ganiatáu digon o amser i reoli a gwella'r gwasanaeth yn effeithiol.			
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Dd/B			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (printiwch):

Teitl:

Llofnod:

Dyddiad: